Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Academi Wyddoniaeth Genedlaethol**

**Dyddiad:** **28 Ebrill 2010**

**Gan:** **Lesley Griffiths, y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau**

Rwy'n falch o hysbysu'r Aelodau y bydd Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn cael ei sefydlu yng Nghymru i helpu i sicrhau economi cryfach, mwy cynaliadwy a chydnerth ar gyfer y dyfodol.

Ar 13 Ebrill 2010, cymeradwyais yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol, un o ymrwymiadau cytundeb Cymru'n Un, gyda chefnogaeth y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Bydd yr Academi'n annog pobl ar bob lefel i astudio gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) i sicrhau bod cyflenwad rheolaidd o bobl yng Nghymru yn graddio o golegau a phrifysgolion gyda'r cymwysterau a'r sgiliau priodol.

Rwyf o'r farn bod arnom angen y bobl gyda'r sgiliau hyn i gefnogi diwydiannau a thechnolegau'r dyfodol, hybu arloesi mewn busnes, annog ymchwil a datblygu mewn prifysgolion a denu buddsoddiad i Gymru. Ni ddylid diystyru pwysigrwydd arloesi a'r rôl y gall ei chwarae o ran helpu twf economaidd. Bydd gan yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol rôl allweddol i'w chwarae i sicrhau bod gennym y sgiliau priodol ar y lefel briodol i gefnogi datblygiad economi ffyniannus a chynaliadwy sy'n seiliedig ar wybodaeth. Rwy'n ymwybodol y bydd sgiliau lefel uchel yn chwarae rôl gynyddol bwysig yn rhaglen adfywio'r economi, yn enwedig mewn pynciau gwyddoniaeth a thechnoleg.

Bydd yr Academi'n adeiladu ar nifer o fentrau cyfredol hynod o lwyddiannus mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg. Nid ateb ar frys yw hwn, oherwydd mae'n cymryd amser i unigolion ddysgu sgiliau lefel uchel a denu mwy o bobl ifanc i'r pynciau hyn. Daeth astudiaeth i'r niferoedd sy'n dechrau astudio pynciau STEM ar hyn o bryd i'r casgliad bod angen gweithio i newid agwedd pobl a sgiliau STEM plant yng Nghyfnod Allweddol 2 neu 3 er mwyn achosi cynnydd mesuradwy yn nifer yr israddedigion yn y maes hwn.

Bydd yr Academi felly'n canolbwyntio ar addysg STEM o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg bellach ac uwch, yn ogystal â sgiliau lefel uwch.

Yr Athro John Harries, Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru, fydd yn pennu cyfeiriad strategol yr Academi, ar ôl iddo ddechrau'i swydd ym mis Mai.

Bydd yr Academi'n gweithio ym mhob cwr o Gymru drwy bedair canolfan ranbarthol ac un canolfan ganolog yn Athrofa Mathemateg a Gwyddoniaeth Gyfrifiadurol Cymru ym Mhrifysgol Abertawe, sydd eisoes yn rheoli'r rhaglen STEM mewn Addysg Uwch Genedlaethol yng Nghymru. Bydd dwy o'r canolfannau rhanbarthol yn Techniquest, Caerdydd a Wrecsam, gyda lleoliad y ddwy ganolfan arall i'w gadarnhau maes o law.

Y prif ddull cyfathrebu fydd drwy wefan gynhwysfawr gyda chynnwys sy'n briodol i wahanol grwpiau defnyddwyr o gyfnodau allweddol 1-3 i gyfarwyddwyr sefydliadau ymchwil.

Ei rôl fydd cydlynu mentrau cyfredol a mentrau yn y dyfodol er mwyn hybu nifer y bobl sy'n dechrau astudio pynciau STEM; dylanwadu ar yr agenda STEM yn y cwrciwlwm ysgolion; a hyrwyddo mentrau sy'n rhychwantu'r 'gadwyn gyflenwi' STEM.

Y nod yw annog pobl i ddechrau astudio'r pynciau hyn o'r ysgol gynradd hyd at y brifysgol a goresgyn unrhyw rwystrau, boed yn rhai tybiedig neu'n rhai go iawn, sy'n golygu nad yw dysgwyr am astudio'r pynciau allweddol hyn.

Mae cyfanswm o £2 miliwn wedi cael ei ddyrannu i sefydlu'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol.

Bydd yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn datblygu strategaeth ganolog i ennyn agweddau cadarnhaol tuag at bynciau a gyrfaoedd STEM drwy:
- hyrwyddo delwedd gadarnhaol o'r pynciau hyn yn gyhoeddus;
- pwyleisio llwyddiannau ac adnoddau ymchwil blaengar Cymru;
- hyrwyddo arfer da drwy astudiaethau achos;
- darparu cyfrwng ar gyfer gwybodaeth ddibynadwy ynghylch dysgu a gyrfaoedd.

Bydd yr Academi'n helpu pobl ifanc i ddilyn cyrsiau STEM mewn addysg uwch ac ar lefel ôl-radd:

- darparu gwasanaeth cynghori ynghylch gyrfaoedd ymchwil, a datblygu modelau cydweithredol ar gyfer ymchwil a chyflogaeth ymchwil;

- tynnu sylw at gyfnewid rhwng ymchwilwyr yng Nghymru a thu hwnt, mewn prifysgolion ac mewn busnes;
- lansio gwasanaeth mentoriaid STEM newydd i sicrhau bod unigolion sydd â diddordeb yn derbyn gwybodaeth reolaidd a pherthnasol ynghylch mentrau STEM a chynnig cyswllt i unrhyw gymorth neu gyngor sydd ei angen.

Bydd y canolfannau rhanbarthol yn hyrwyddo ac yn marchnata gwaith yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol, y cynllun cenhadon STEM mewn ysgolion a cholegau, ac yn gweithredu cynllun y Dyfarniad Crest yn holl ysgolion cynradd ac uwchradd a cholegau Cymru.